

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd Nos Iau,
30 Ebrill 2020 .

Cyfarfod Fidio

Minutes of the Finance Committee held, Thursday 30 Ebrill 2020.

Video Meeting

Yn bresennol / Present

Cynghorwyr Hywel J Owen; Clive Bayley; Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones ; Gerwyn Owen; David C Davies; Eddie Willcox; a David Roberts, Rheolwr y Cyngor.

1 Croeso'r Cadeirydd - Chairmans Welcome

Agorwyd y cyfarfod gan Cyng. David C Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid am 8 o'r gloch yr hwyr. Diolchodd i'r aelodau oedd yn bresennol. Aeth yn syth at y rhaglen. Eglurodd nad oedd yna wasaneeth cyfiethu ond y byddai yn cynnal y cyfarfod yn ddwyieithog

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Cyng. Bryn Williams

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000

Cyng. Gerwyn Owen - yn aelod o Grwp Gwirfoddolwyr Y Groeslon – ddim yn fuddiant oedd yn rhagfarnu felly arhosodd yn y cyfarfod wrth drafod yr eitem.

4 Cyfrifon Terfynol 2019-20 Final Accounts

Trafodwyd adroddiad y Rheolwr.

Nodwyd y canlynol gan aelodau

AWJ – holi am gwerth asedau o £31,500. Cynnwys y mater ar rhaglen nesaf y Pwyllgor

DCD – gofyn pryd oedd yswiriant y Cyngor yn cael ei adnewyddu.
Rheolwr – mis Medi

Nodwyd y canlynol o'r adroddiad

i) Sefyllfa Derfynol Gwariant ac Incwm 2019-20

Balans Y Cyngor 1 Ebrill 2019	Council Balances 1 April 2019	(£9,345.97)
+ Praesept 2019-20	+ Precept 2019-20	(£55,000.00)
+ Derbyniadau Eraill	+ Other Income	(£7,607.87)
- Costau Staff	- Staff Costs	£10,455.35
- Llog ar Benthyciadau	- Interest on Loans	£11,428.34
- Taliadau Eraill	- Other Payments	£39,063.95
= Balansau ar 31 Mawrth 2020	= Balances at 31 March 2020	(£11,006.20)
+ Dyledwyr	+ Debtors	(£1,501.00)
+ Cyfanswm Yr Arian Parod (ar ol ystyried am sieciau heb eu cyflwyno)	+ Total Cash at Bank (after adjusting for unpresented cheques)	(£11,996.17)
- Credydwyr	- Creditors	£2,420.97
= Balansau 31 Mawrth 2020	= Balances at 31 March 2020	(£11,006.20)
Cyfanswm Asedau Sefydlog 31 Mawrth 2020	Total Fixed Assets 31 March 2020	£31,200.00
Cyfanswm y Benthyciad ar 31 Mawrth 2020-	Total Loans Outstanding as at 31 March 2020	£126,199.51

ii) Cysoniad y Banc ar 31 Mawrth 2020

Cysoniad y Banc i 31 Mawrth 2020 / 31 March 2020 – Bank Reconciliation	
Balansau'r Banc i 31 Mawrth 2020 – Balances in the Bank 31 March 2020	(£11,996.17)
- Llai Sieciau heb eu cyflwyno / Less Unpresented Cheques	£0
- Llai Credydwyr / Less Creditors	£2,490.97
+ Dyledwyr / Debtors	(£1,501.00)
Balans yn cario drosodd i 1 Ebrill 2020 / Balance Carried Forward to 1 April 2020	(£11,006.20)

iii) Cronfeydd y Cyngor ar 31 Mawrth 2020

Cronfeydd y Cyngor ar 31 Mawrth 2020 / Specific Funds as at 31 March 2020	(£9,345.97)
- Arian Wrth Gefn - Polisi'r Cyngor / General Reserve	(£3,500.00)
- Cronfa Caeau Pel-droed / Football Field Fund	(£2,000.00)
- Clustnodi ar Gyfer Gwefan Newydd / Earmarked for New Website	(£2,185.00)
- Cyfraniad Ymlaen Llaw / Contribution Received in Advance	(£100.00)
Cyfanswm / Total	(£9,785.00)
- Yn gadael balans heb ymrwymiad / Leaving an uncommitted balance of	(£1,221.20)
Cyfanswm/ Total	(£11,006.20)

iv) **Crynodeb o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2020, Effaith ar y Gyllideb Wrth Symud Ymlaen i 2020-21 ac Oblygiadau y Corona Firws**

- 'Roedd gwariant y Cyngor am y flwyddyn yn **£60,948** ac Incwm (yn cynnwys y praesept o £55,000) yn (**£62,608**) felly yn gadael tanwariant o (**£1,660**). Wedi ychwanegu balansau o (£9,346) ar gychwyn y flwyddyn gadewir falansau ar ddiwedd y flwyddyn o (**£11,006**)
- Yn erbyn y balans terfynol o (£11,006) mae gan y Cyngor gronfeydd ac ymrwymadau o (**£9,785**) sydd yn gadael tanwariant heb ymrwymiad o (**£1,221**).
- Wedi ei gynnwys yn y balans diwedd y flwyddyn yw cost ein gwefan newydd sydd yn **£2,185**. Mae Cwmni Delwedd wedi gorfod gohirio y gwaith oherwydd prysurdeb oblygiadau y firws.
- Mae'r tanwariant yn deillio o amrywiol bennawdau ond yn bennaf ar y pennawd **Rhoddion** (cyllideb o £6,000 yn erbyn gowariant o £4,800) a Biniau Halen
- Mae'r gwariant yn cynnwys rhodd o £300 i gefnogi pobol bregus ein cymuned oherwydd y **corona firws**.
- Rhagwelir y daw fwy o geisiadau i law ac felly bydd rhaid i'r Aelodau ystyried **clustnodi y tanwariant o £1,221** ar gyfer ceisiadau pellach i gefnogi **pobol mwyaf bregus** yn ein cymuned.
- Noder fod y Cyngor wedi **gosod praesept o £64,000** yn y flwyddyn ariannol newydd 2020-21. 'Roedd cynnydd yn y praesept o £9,000 ar gyfer cynllun gwariant sydd o bosib yn debygol o lithro rwan oherwydd y firws.
- Noder ymhellach fod y gyllideb newydd yn cynnwys cyllideb **Rhoddion o £7,090** gyda £1,000 ar gyfer Eisteddfod Gendlaethol Llyn ac Eifionydd 2021. Mae'r Eisteddfod wedi ei ohirio rwan tan 2022..
- **Ffioedd Claddu** – o ganlyniad i effaith y firws mae yna bosibilrwydd y bydd yr incwm yn uwch na'r targed sydd yn £4,590 yn 2020-21 (£4,224 oedd incwm terfynol 2019-20)

'Roedd y Rheolwr eisoes wedi anfon y wybodaeth ganlynol i'r aelodau -

- 1 Cyfrif Incwm a Gwariant am y cyfnod 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020
- 2 Datganiadau Banc i 31 Mawrth 2020
- 3 Cysoniad y Banc i 31 Mawrth 2020
- 4 Crynodeb o'r Balansau i 31 Mawrth 2020
- 5 Ffurflen Flynyddol 2019-20
- 6 Mantolen 2019-20
- 7 Gwahaniaethau Rhwng 2018-19 a 2019-20

Trafodwyd defnydd o technoleg a lwfansau aelodau. Nodwyd mnad oedd aelodau y pwyllgor Cyllid yn bwriadu hawlio eu lwfans eleni ac mae'n debyg na fyddai gweddill yr aelodau . Nodwyd gan y Rheolwr fod yna swm o £2,100 y y gyllideb (ar sail £150 x 14

aelod). Gellir ystyried prynu iPad 1 pb aelod gan ddefnyddio y gyllideb hwn. Dywedodd CB y byffai hyn yn arbed costau gweinyddiaeth.

Argymhelliad i'r Cyngor.

- i) **Fod y Cyngor yn derbyn cywirdeb y wybodaeth uchod.***
- ii) **Fod y Cyngor yn derbyn y balansau fel a nodwyd***
- iii) **Fod y Cyngor yn nodi y drafodaeth ynglyn a prynu tabledi i pob aelod ac i'r Cyngor llawn ei drafod yn y cyfarfod nesaf***

Recommendation to the Council.

- i) **For the Council to note the above information.***
- ii) **For the Council to note the balances as stated.***
- iii) **For the council to note the discussion regarding the purchase of tablets and for the Council to discuss the matter in the next full Council meeting.***

4 Cyfyngiadau Coronafirws

Penderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod 30 Ebrill oedd i alw ar y Pwyllgor hwn i drafod dosbarthu grantiau i'r pentrefi ag i sicirhau fod y ceisiadau yn cadw oddi fewn i'r gyllideb.

Nodwyd fod y grantiau isod eisoes wedi ei ddsbarthu

	2019-20	2020-21	Cyfanswm
Fron	0	£100	£100
Carmel	0	0	0
Groeslon	£100	0	£100
Llandwrog	£100	£300	£400
Dinas Dinlle	£100	£100	£200
Cyfanswm	£300	£500	£800

'Roedd yr aelodau yn awyddus iawn i gefnogi y pentrefi yn y cyfnod anodd hwn, ond yn cydnabod fod angen cadw rheolaeth ar y gyllideb.

HJO – yn gwneud y sylw gall y Pwyllgor ystyried dosbarthu cyllideb ar sail nifer poblogaeth, ond byddai rhaid fod yn ofalus iawn i ddefnyddio y methodoleg hwn.

AWJ – gwahaniaeth sylweddol mewn poblogaeth pentref y Groeslon a pentref Dinas Dinlle

GO – rhaid sylweddoli fod hwn yn gyfnod o argyfwng ac mae rhaid ymateb yn sydyn i ddatblygiadau.

Nodwyd yn adroddiad y Rheolwr fod yna swm o **£1,000** yn cyllideb "**Rhoddion 2020-21**" wedi ei glustnodi ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd 2021 ac fod yna **£1,200** o arian heb ei ymrwymo yn cario drosodd o 2019-20

Gan fod yr Eisteddfod bellach wedi ei ohirio argymhellir i ddefnyddio y gyllideb ar gyfer cefnogi y pentrefi tra fod y cyfyngiadau feirws yn parhau.

O ganlyniad byddai'r gyllideb ar gyfer cefnogi y pentrefi yn dangos fel a ganlyn-

Defnyddio Tanwariant 2019-20	£1,200	
+ Defnyddio Cyllideb Rhoddion 2020-21	£1,000	Cyllideb Eisteddfod Genedlaethol 2021
+ Gwariant 2019-20	£300	

Cyfanswm	£2,500	
Swm y Pentref (£500 x 5 = £2,500)	£500	
Gweddill ar Gael		
Fron	£400	wedi derbyn £100
Carmel	£500	heb hawlio dim
Groeslon	£400	wedi derbyn £100
Llandwrog	£100	wedi derbyn £400
Dinas Dinlle	£300	wedi derbyn £200
Cyfanswm	£1,700	

Argymhelliad i'r Cyngor

- i) *Fod y Cyngor yn clustnodi tanwariant heb ei ymrwymo 2019-20 o £1,200 ar gyfer cefnogi pentrefi yn y cyfnod cyfyngiadau feirws.*
- ii) *Fod y Cyngor yn defnyddio £1,000 o'r gyllideb Rhoddion 2020-21 oedd wedi ei glustnodi ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionnydd 2021 ar gyfer cefnogi pentrefi yn y cyfnod cyfyngiadau feirws*
- iii) *Fod y Cyngor yn dyrannu £500 i pob pentref sydd yn cynnwys £300 sydd eisoes wedi ei ddosbarthu yn 2019-20 - yn rhoi cyfanswm adnoddau o £2,500*
- iv) *Fod y Cyngor yn rhoi hawl dirprwyedig i'r Rheolwr ddosbarthu grantiau hyd at £500 i pob pentref.*
- v) *Fod pob cais am gyfraniad y daw i law fydd dros y trothwy o £500 yn cael ei gyfeirio i'r Cyngor llawn am ystyriaeth.*
- vi) *Fod cais am £300 gan Grwp Gwirfoddolwyr Y Groeslon yn cael ei gymeradwyo*

Recommendation to the Council.

- i) That the Council earmarks the 2019-20 uncommitted underspend of £ 1,200 to support villages during the virus restriction period.
- ii) That the Council uses £ 1,000 from the 2020-21 Financial Contributions Budget head t earmarked for the 2021 National Eisteddfod to support villages during the period of virus restrictions
- ii) That the Council allocates £ 500 to each village which includes £ 300 distributed in 2019-20 - giving a total resource of £ 2,500
- iv) That the Council gives delegated powers to the Manager to distribute grants of up to £ 500 to each village.
- v) That all requests for contributions received in excess of the £ 500 threshold be referred to full Council for consideration.
- vi) That an application for £300 from Groeslon Volunteer Group be approved

Daeth y cyfarfod i ben am 8:55 yr hwyr / The meeting came to a close at 8:55pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor

Dyddiad -